# Agenda - Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a: |
| **Ystafell Bwyllgora 1 - Y Senedd** | **Naomi Stocks** |
| Dyddiad: Dydd Mercher, 17 Hydref 2018 | Clerc y Pwyllgor |
| | 0300 200 6565 |
| Amser: 08.50 | SeneddCymunedau@cynulliad.cymru |

Rhag-gyfarfod (08.50 - 09.00)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

## 2 Ymchwiliad i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus: sesiwn dystiolaeth 6

(09.00 - 10.30) (Tudalennau 1 - 19)

Alun Davies AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus

Claire Bennett, Dirprwy Gyfarwyddwr, Trawsnewidiaeth a Phartneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

Claire Germain, Pennaeth Partneriaethau Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru

## 3 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod

Egwyl (10.45 - 10.55)

## 4 Ymchwiliad i fyrddau gwasanaethau cyhoeddus: trafod y dystiolaeth a ddaeth i law o dan eitem 2

(10.40 - 10.55)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## 5 Ymchwiliad i hawliau pleidleisio i garcharorion: trafod dull gweithredu'r ymchwiliad

(10.55 - 11.25) (Tudalennau 20 - 26)

## 6 Bil Rhentu Cartrefi (Ffioedd etc.) (Cymru): trafod yr adroddiad drafft

(11.25 - 11.55) (Tudalennau 27 - 90)

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**TYSTIOLAETH YSGRIFENEDIG I'R PWYLLGOR CYDRADDOLDEB, LLYWODRAETH LEOL A CHYMUNEDAU – BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS YNG NGHYMRU**

**Cyflwyniad**

1. Diben y papur hwn yw darparu tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar yr ymchwiliad i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yng Nghymru.

**Cefndir**

2. Sefydlwyd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) ("y Ddeddf") a ddaeth i rym ym mis Ebrill 2016. Maent yn adeiladu ar drefniadau'r Byrddau Gwasanaethau Lleol a fu'n weithredol cyn hynny. Mae partneriaid yn y gwasanaethau cyhoeddus yn cydweithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol eu hardal drwy gyfrannu at gyflawni'r saith nod llesiant a nodir yn y Ddeddf.

3. Aelodau statudol y bwrdd yw Cyfoeth Naturiol Cymru, yr Awdurdod Tân ac Achub, yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol.

4. Gwahoddedigion statudol i'r Byrddau yw Gweinidogion Cymru, Prif Gwnstabliaid a Chomisiynwyr Heddlu a Throseddu, cynrychiolwyr y gwasanaeth prawf ac o leiaf un corff sy'n cynrychioli mudiadau gwirfoddol.

5. Mae pob bwrdd yn gyfrifol am ystyried pa gyrff eraill, os o gwbl, y mae'n dymuno eu gwahodd i gyfranogi yn ei waith fel cyfranogwyr gwahoddedig a'r ffordd y mae'n bwriadu eu cynnwys. Yr unig amod yw bod yn rhaid i'r cyfranogwyr gwahoddedig arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus. Cynlluniwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i fod yn hyblyg ac ar wahân i'r aelodau statudol a'r cyfranogwyr gwahoddedig, gall pob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unigol benderfynu pwy sy'n briodol i fynychu eu cyfarfodydd yn rheolaidd.

6. Yn dilyn cyfarfod cyntaf y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar ôl etholiad awdurdod lleol, y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unigol fydd hefyd yn gyfrifol am benderfynu pwy y bydd yn ei benodi fel cadeirydd y bwrdd. Mae tri ar ddeg o blith y pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar bymtheg yn cael eu cadeirio naill ai gan arweinydd neu brif weithredwr yr awdurdod lleol; mae rhai ohonynt yn cael eu cadeirio gan y bwrdd iechyd lleol, un gan Cyfoeth Naturiol Cymru ac mae dau fwrdd yn cael eu cadeirio gan gyfranogwyr gwahoddedig (Coleg Sir Gâr - Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir Gaerfyrddin a Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro - Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus Sir Benfro).

7. Mae'n rhaid i bob Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant a nodir yn y Ddeddf. Rhaid iddynt wneud hynny yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Hynny yw, mewn ffordd sy'n arddangos ffordd o

feddwl, dulliau atal, integreiddio, cydweithio a chyfranogiad hirdymor. Wrth gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant, mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn galluogi i wasanaethau gael eu darparu mewn dull mwy agored a chydgysylltiedig ar lefel leol.

8. Mae'r fframwaith cyfreithiol ar gyfer Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn seiliedig ar fodel o benderfyniadau lleol ac atebolrwydd lleol - ac er bod gofynion o ran *sut* maent yn cyflawni eu swyddogaethau, mae ganddynt ddisgresiwn o ran *beth* maent yn penderfynu ei wneud fel Bwrdd. Mae yna hyblygrwydd hefyd, o fewn y gofynion statudol, o ran sut y maent yn mynd ati i wneud eu gwaith, er mwyn eu galluogi i wneud hynny yn y ffordd sy'n gweddu orau i'w hardal hwy. Mae hyn yn golygu bod amrywiadau sylweddol rhwng gwahanol Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

**Asesiadau o lesiant lleol**

9. Y dasg allweddol gyntaf i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus oedd paratoi a chyhoeddi Asesiad o lesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol yr ardal. Ei ddiben yw darparu tystiolaeth gadarn i'r bwrdd a fydd yn sail i benderfyniadau ar y cyd-flaenoriaethau ar gyfer yr ardal.

10. Roedd paratoi a chyhoeddi'r Asesiadau yn broses sylweddol, ac mae'r sefydliadau gwasanaethau cyhoeddus sy'n rhan o'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi dangos ymrwymiad i groesawu'r her o ddadansoddi cyflwr llesiant pobl a chymunedau yn eu hardaloedd.

11. Roedd y mwyafrif ohonynt wedi strwythuro eu Hasesiadau ar sail y pedair elfen llesiant, tra bod eraill wedi asesu llesiant yn eu hardal yn erbyn y nodau llesiant cenedlaethol neu wedi defnyddio modelau cyfnodau bywyd.

12. At ei gilydd, mae'r Asesiadau hyn yn ffynhonnell wybodaeth ddefnyddiol, sy'n cynnig dealltwriaeth fanylach o gryfderau ardal, yn ogystal â'i heriau, ystyriaeth o dueddiadau'r ardal yn y dyfodol, a chan ddefnyddio gwybodaeth ansoddol yn ogystal â gwybodaeth feintiol, yn ymgysylltu â phobl yn yr ardal i ofyn eu barn ar lesiant yr ardal.

13. Mae datblygu'r defnydd o dystiolaeth yn broses ailadroddus a pharhaus a phwysleisiwyd wrth y byrddau bod yr Asesiadau yn ddarnau o waith sy'n datblygu y dylid eu hystyried yn rhai uchelgeisiol ond yn rhai y gellir eu cyflawni ar yr un pryd.

**Cynlluniau Llesiant Lleol**

14. Ar ôl cwblhau'r asesiadau yn 2017, roedd yn ofynnol i'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gynhyrchu Cynllun Llesiant Lleol a oedd yn nodi amcanion lleol y Bwrdd a'r camau y mae'n bwriadu eu dilyn i'w cyflawni - boed hynny gan aelod, cyfranogwr gwahoddedig neu bartner arall y bwrdd. Mae'r Cynlluniau hyn yn canolbwyntio ar yr amcanion hynny y mae angen i bartneriaid gydweithio arnynt i'w cyflawni. Cyhoeddwyd y Cynlluniau cyntaf ym mis Mai 2018.

15. Mae'n rhaid i'r Cynllun esbonio sut y bydd yr amcanion lleol a ddewiswyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant a sut y mae'r amcanion hyn wedi'u pennu mewn cysylltiad â'r Asesiad. Mae'n rhaid iddo hefyd nodi'r cyfnod o amser y disgwylir i'r Bwrdd gyflawni'r amcanion hyn a sut y dylid dilyn y camau yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

16. Pwysleisiwyd i'r byrddau y dylai'r Cynlluniau, yn yr un modd â'r Asesiadau, fod yn ddogfennau byw yr ychwanegir atynt ac a fydd yn datblygu wrth i ddata a gwybodaeth newydd ddod i law. Anogwyd y byrddau hefyd i dargedu ymdrechion ar y materion y maent yn credu a fyddai'n cael yr effaith gyfunol fwyaf; yn hytrach na lledaenu eu sylw a'u hymdrechion yn rhy denau.

17. Nawr bod y Cynlluniau Llesiant Lleol wedi'u cyhoeddi, mae'r Byrddau Gwasanaethu Cyhoeddus yn canolbwyntio o ddifrif ar eu cyflawni nawr. Hyd yma, sefydlwyd is-grwpiau'r byrddau er mwyn canolbwyntio'n fanwl ar sut y caiff yr amcanion eu cyflawni ac mae rhai byrddau wedi cyhoeddi cynlluniau cyflawni.

### Gallu byrddau i uno neu gydweithio

18. Y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu pryd, lle a sut y maent yn dymuno cydweithio a chynlluniwyd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i sicrhau bod ganddynt yr hyblygrwydd i wneud hynny.

19. Mae'r Ddeddf yn galluogi i ddau neu fwy o'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus uno pe byddai hynny'n eu cynorthwyo i gyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant. Mae pedwar Bwrdd wedi penderfynu uno (mae Rhondda Cynon Taf a Merthyr wedi uno i ffurfio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf ac mae Conwy a Sir Ddinbych hefyd yn Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus unedig). Yn y cyfamser, mae Ynys Môn a Gwynedd wedi penderfynu gweithredu bwrdd ar y cyd, ond nid ydynt wedi uno'n ffurfiol.

20. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus bwerau cyffredinol hefyd i gydweithio, gan gynnwys:
    - cydweithio gyda Bwrdd arall
    - hwyluso gweithgareddau Bwrdd arall
    - cydlynu ei weithgareddau gyda Bwrdd arall
    - arfer swyddogaethau Bwrdd arall ar ei ran, neu
    - darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu adeilad i Fwrdd arall.

21. Mae nifer o'r Byrddau eisoes wedi arfer y pŵer hwn i gydweithio ar sail ranbarthol wrth gynhyrchu eu Hasesiadau o Lesiant Lleol a pharatoi eu Cynllun Llesiant Lleol. Anogwyd a chefnogwyd y math hwn o gydweithio drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru.

22. Enghraifft o'r ffordd y mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cydweithio yw Grŵp Asesu Llesiant Strategol Gwent. Sefydlwyd y grŵp hwn i rannu arfer gorau ar draws ardal Gwent wrth ddatblygu'r Asesiadau a'r Cynlluniau. Mae

cynrychiolwyr o'r cyrff sy'n eistedd ar y pum bwrdd yn aelodau'r grŵp. Mae'r grŵp hwn wedi gweithio ar nifer o brosiectau rhanbarthol i gynorthwyo yn y gwaith cynllunio llesiant. Yn fwyaf diweddar maent wedi datblygu cyfres o flaenoriaethau rhanbarthol y gellir gweithio arnynt ar hyd a lled ardal Gwent.

**Darparu adnoddau ar gyfer gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

23. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn mynnu bod yr Awdurdod Lleol yn darparu cymorth gweinyddol i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Ystyrir bod cymorth gweinyddol yn cynnwys dyletswyddau megis sicrhau bod y bwrdd wedi'i sefydlu a'i fod yn cwrdd yn rheolaidd; paratoi'r agenda a chomisiynu papurau ar gyfer cyfarfodydd; gwahodd cyfranogwyr a rheoli eu presenoldeb; gweithio ar yr adroddiad blynyddol a pharatoi tystiolaeth at ddibenion craffu.

24. Fodd bynnag, y bwrdd ei hun fydd yn penderfynu ar yr adnoddau priodol a chymesur a roddir ar gyfer swyddogaethau cyfunol y bwrdd, y mae gan bob un o'r aelodau statudol gyfrifoldeb cyfartal drostynt.

25. Nid oes unrhyw beth ychwaith yn atal cyfranogwyr gwahoddedig neu bartneriaid eraill rhag cynnig cyngor, cymorth ac adnoddau i'r bwrdd ar ffurf arbenigedd dadansoddol neu broffesiynol. Nid yw'n ofynnol iddynt ddarparu cymorth ariannol, ond gallant wneud hynny os ydynt yn ystyried ei fod o fewn eu pwerau.

**Cymorth Llywodraeth Cymru i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

26. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu pecyn o gymorth i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a'r Byrddau Gwasanaethau Lleol blaenorol ers sawl blwyddyn. Mae ffocws y cymorth hwn wedi newid dros amser, er mwyn ymateb i'r tasgau gwahanol yr oedd y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn canolbwyntio arnynt.

27. Yn y gorffennol, darparwyd cyllid â chyfyngiad amser i awdurdodau lleol ddarparu cymorth i ddatblygu Byrddau Gwasanaethau Lleol drwy brosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop mewn ardaloedd Cydgyfeirio, gyda'r arian hwn yn cael ei gyfateb drwy'r grant Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn yr ardaloedd hynny nad ydynt yn ardaloedd Cydgyfeirio. Daeth prosiect Cronfa Gymdeithasol Ewrop i ben ddiwedd 2015.

28. Darparwyd blwyddyn ychwanegol o gyllid trosiannol ar gyfer pob Bwrdd Gwasanaethau Lleol yn 2015-16 er mwyn sicrhau parhad y cymorth a chynnal momentwm, gan weithredu fel trefniant pontio wrth baratoi am y newidiadau a fyddai'n dod i rym yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

29. Ers i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gael eu sefydlu yn 2016, darparwyd math gwahanol o gymorth iddynt, gan symud i ffwrdd o gymorth partneriaeth cyffredinol (a ddylai fod yn gyfrifoldeb aelodau fel rhan o fusnes arferol) ac yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â materion penodol yn ymwneud â chapasiti a gallu a allai effeithio ar allu'r Byrddau i gyflawni. Er enghraifft, sicrhau bod arbenigedd dadansoddol priodol ar waith i gynnal yr asesiadau.

30. Mae'r pecyn cymorth ar gyfer 2018/19 yn adlewyrchu'r ffaith mai dyma fydd trydydd cam y gwaith, pan fydd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflawni yn erbyn eu cynllun ac yn adrodd yn erbyn cynnydd. Hynny yw, am y tro cyntaf ers eu sefydlu, bydd y Byrddau yn gweithio ar sail 'busnes arferol', a bydd hynny'n parhau am y tair blynedd nesaf cyn i waith ddechrau ar eu hail asesiad llesiant.

31. Mae'r cymorth a gynigir i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn gyfuniad o gymorth anariannol ac ariannol ac mae'n rhannu'n gyffredinol fel a ganlyn:

*Cymorth Cyffredinol*

- Cynnig cenedlaethol o gymorth cyffredinol i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, yn nhermau mynediad at arbenigedd a gwasanaethau. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd rhwydwaith chwarterol i gydlynwyr sy'n cefnogi Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, cyllid tuag at Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru, sydd â rôl yn cefnogi Byrddau, 'clinigau galw heibio' wedi'u trefnu gan Lywodraeth Cymru, sy'n cynnig cyngor i'r rhai sy'n gweithio ar yr Asesiadau a'r Cynlluniau ar adegau allweddol, a chyllid tuag at ddigwyddiadau a hyfforddiant.

*Cymorth wedi'i Dargedu*

- Cymorth wedi'i dargedu sy'n cael ei arwain gan anghenion penodol Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus. Darperir y cymorth hwn ar ail ranbarthol yn hytrach nac unigol, er mwyn annog dull gweithredu cyson ac osgoi dyblygu ymdrechion.

- Eleni cynigiwyd £400,000 (a'i rannu'n gyfartal) i'r Byrddau ei ddefnyddio er mwyn cwblhau eu cynlluniau llesiant ac yna cyflawni yn eu herbyn, yn ogystal â chyfuno gwaith ar yr asesiadau llesiant lleol.

- Mae rhai enghreifftiau o sut y mae'r cyllid rhanbarthol yn cael ei ddefnyddio yn cynnwys casglu rhagor o ddata amgylcheddol er mwyn cyflwyno tystiolaeth argyhoeddiadol sy'n nodi'r amgylchiadau presennol a'r rhai yn y dyfodol ac a fydd yn nodi'r addasiadau y gellir eu gwneud yn lleol er mwyn helpu i ymdopi ag effeithiau negyddol newid yn yr hinsawdd. Mae rhanbarth arall yn defnyddio rhan o'r cyllid i ymgysylltu â rhanddeiliaid a phartneriaid er mwyn hyrwyddo defnydd rhyngweithiol o fanc gwybodaeth a fydd yn cynorthwyo i lenwi bylchau mewn data.

- Yn ogystal, mae cymorth yn cael ei gynnig ar sail thematig (yn hytrach na daearyddol) i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sy'n adeiladu ar rai o'r amcanion sydd ag elfennau cyffredin ar hyd a lled Cymru. Mae'r themâu yn cyd-fynd â'r meysydd a nodwyd yn Ffyniant i Bawb (Blynyddoedd Cynnar, Tai, Gofal Cymdeithasol, Iechyd Meddwl, Sgiliau a Chyflogadwyedd).

*Cymorth Lleol*

- Ar lefel leol, y brif flaenoriaeth yw cynorthwyo datblygiad Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus unigol.  Buddsoddwyd hefyd i ddatblygu'r Byrddau gydag Academi Cymru yn cynnig ei arbenigedd a'u cynnyrch i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynnig diwrnodau datblygu 'Bwrdd Iach' wedi'u hwyluso i bob Bwrdd, a chafwyd ymateb cadarnhaol i hyn.

**Cynrychiolwyr Llywodraeth Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

32. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn nodi bod yn rhaid i Weinidogion Cymru dderbyn gwahoddiad gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gyfranogi yng ngweithgaredd y bwrdd.  Dirprwywyd y rôl hon i uwch weision sifil o fewn Llywodraeth Cymru, ac mae gan bob un o'r pedwar ar bymtheg o fyrddau gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru fel cyfranogwr gwahoddedig.

33. Rôl cynrychiolydd Llywodraeth Cymru ar Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yw cyflwyno safbwynt cenedlaethol i gyfarfodydd a sicrhau bod dulliau cyflawni cenedlaethol a rhanbarthol yn parhau i ymateb i faterion lleol ac atebolrwydd democrataidd lleol.

**Llywodraethu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus**

34. Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd mae'n ofynnol i'r awdurdod lleol bennu un o'i Bwyllgorau Trosolwg a Chraffu i adolygu trefniadau llywodraethu'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ogystal ag adolygu'r penderfyniadau a wneir neu'r camau a gymerir gan y Bwrdd a chraffu arnynt a chynhyrchu adroddiadau neu argymhellion i'r Bwrdd ar ei swyddogaethau neu drefniadau llywodraethu.

35. Yr awdurdodau lleol unigol sy'n gyfrifol am benderfynu beth fydd ffurf y trefniadau craffu hyn.  Er enghraifft, gellir defnyddio pwerau deddfu presennol i roi trefniadau o'r fath ar waith, megis 'cyfethol' personau nad ydynt yn aelodau o'r awdurdod i eistedd ar y pwyllgor, a phan fydd yn briodol, penodi cydbwyllgorau ar draws mwy nag un ardal awdurdod lleol pan fydd hynny'n briodol.

36. Gall y pwyllgor ei gwneud yn ofynnol i unrhyw aelod statudol o'r Bwrdd gyflwyno tystiolaeth, ond dim ond wrth arfer y cyd-swyddogaethau a bennwyd ar eu cyfer fel aelod statudol.  Mae hyn yn cynnwys unrhyw berson sydd wedi derbyn gwahoddiad i gymryd rhan yng ngweithgaredd y Bwrdd.  Mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Graffu Cenedlaethol, cyflwynodd Llywodraeth Cymru Ganllawiau i Bwyllgorau Craffu awdurdodau lleol ym mis Awst 2017.

37. Pwyslais Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw atebolrwydd lleol, gydag ychydig iawn o bwerau gan Weinidogion Cymru neu gyrff cenedlaethol eraill i graffu ar waith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.

38. Er bod angen anfon copïau o Asesiadau Llesiant Lleol, Cynlluniau Llesiant Lleol ac adroddiadau blynyddol wedi'u cyhoeddi at Weinidogion Cymru, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ac Archwilydd Cyffredinol Cymru, mae hyn er gwybodaeth yn hytrach nag i gael eu cymeradwyo.

39. Mae'n rhaid ceisio cyngor Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol wrth baratoi'r Cynllun Llesiant, a dylid ymgynghori'n ffurfiol â hi ar yr Asesiad o Lesiant Lleol a'r Cynllun Llesiant. Y Comisiynydd a'r Bwrdd fydd yn penderfynu sut y byddant yn cydweithio; gan gydnabod, er na fydd y Comisiynydd yn cynnal adolygiadau o Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, bydd y cyrff sy'n gysylltiedig â'r Byrddau hefyd yn ymgysylltu â'r Comisiynydd fel cyrff unigol sy'n cynnal y ddyletswydd llesiant.

40. Mae gan Weinidogion Cymru y pŵer i gyfarwyddo Bwrdd i adolygu ei Gynllun Llesiant Lleol, neu i gyfeirio Cynllun at bwyllgor craffu'r awdurdod lleol dan sylw os nad ydynt o'r farn ei fod yn ddigonol; er enghraifft oherwydd ymateb anffafriol gan y Comisiynydd neu bryder Gweinidogol nad yw'r dyletswyddau statudol yn cael eu cyflawni.

41. Yn yr un modd, nid oes gan Archwilydd Cyffredinol Cymru unrhyw rôl benodol o ran archwilio Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, ond gall gynnal archwiliadau o gyrff cyhoeddus er mwyn asesu'r graddau y mae corff wedi gweithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion a chymryd camau i'w cyflawni – gan gynnwys cydweithrediad.

**Perthnasoedd â phartneriaethau eraill**

42. Mae llawer o'r Cynlluniau Llesiant Lleol yn cyfeirio at sut y bydd gwaith y byrddau yn cyd-fynd â'r tirlun partneriaeth ehangach, er enghraifft bargeinion dinesig a Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol.

43. Mynegwyd diddordeb penodol yn y ffordd y bydd gwaith y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyd-fynd â gwaith y Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol. Er bod aelodaeth y ddau fwrdd yn debyg, mae eu diben yn wahanol. Mae gan Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol rôl benodol i hyrwyddo integreiddio gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol a chyflawni anghenion gofal a chefnogaeth arloesol ac integredig. Mae'n ofynnol iddynt flaenoriaethu'r gwaith o integreiddio gwasanaethau ar gyfer grwpiau penodol (pobl hŷn gydag anghenion cymhleth, pobl ag anableddau dysgu, gofalwyr, a phlant ag anghenion cymhleth. Mae gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus rôl fwy eang a strategol, i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ehangach eu hardal; mae ganddynt fwy o ddisgresiwn hefyd ar gyfer canolbwyntio eu hymdrechion ar y cyd. Mae ganddynt ôl troed gwahanol hefyd; mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn dilyn ôl troed y bwrdd iechyd lleol ac mae Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn dilyn ôl troed awdurdod lleol unigol yn bennaf.

44. Mae eu buddiannau'n gorgyffwrdd - mae'r Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol yn debygol o fod â diddordeb mewn llesiant ehangach unigolion, yn arbennig pan fydd perygl y bydd yr angen am ofal a chymorth ffurfiol yn cael ei atal; ac i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus mae llesiant unigolyn yn rhan allweddol o lesiant ardal. Er enghraifft, mae Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili yn nodi cysylltiad rhwng teimladau o unigrwydd ac ynysu â phoblogaeth sy'n heneiddio fel problem sydd wedi dod i'r amlwg i'r ddau Fwrdd.

45. Y disgwyliad yw, pan fydd meysydd o ddiddordeb cyffredin, bydd y naill Fwrdd yn cynnal gweithgaredd sy’n ategu gweithgaredd y llall, yn hytrach na gweithgaredd sy’n gwrthdaro neu’n dyblygu.  Dylid penderfynu ar y trefniadau hyn yn lleol.  Y pwyslais o safbwynt Llywodraeth Cymru yw sicrhau bod hyblygrwydd i aelodau’r ddau fwrdd benderfynu pa drefniadau sy’n gweithio orau iddynt hwy, a gallai’r rhain amrywio ar hyd a lled Cymru.

**Alun Davies**

**Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus**

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon